

## Cymorth Cristnogol

Gwn ei bod braidd yn gynnar i ddechrau meddwl am fis Mai. A ninnau yng nghanol stormydd mawr y gaeaf mae mis Mai a'i dywydd braf (gobeithio!) yn edrych yn bell iawn. Ac eto ...

Mae Cymorth Cristnogol eisoes yn dechrau trefnu ar gyfer yr wythnos o gasglu arian o ddrws i ddrws yn ystod y mis hwnnw.

Mai 11-17 fydd Wythnos Cymorth Cristnogol eleni, a bwriadwn wneud y casgliad arferol unwaith eto.

Os medrwch roi ychydig oriau yn ystod yr wythnos honno i'n helpu gyda'r casgliad byddwn yn ddiolchgar iawn.

## Cyhoeddiadau

**CEFNYWAUN AC EBENESER**

**Nos Fercher, Chwefror 19:** Dosbarth

Beiblaidd yr Ofalaeth yn Yr Haciau, Penisarwaun am 7.00 o'r gloch.

**Dydd Sul, Chwefror 23:** Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch, a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Dafydd Hughes.

### CAPEL COCH A NANT PADARN

**Nos Lun, Chwefror 17:** Pwyllgor Blaenoriaid yn y festri am 7.00 o'r gloch.

**Nos Fercher, Chwefror 19:** Dosbarth Beiblaidd yr Ofalaeth yn Yr Haciau, Penisarwaun am 7.00 o'r gloch.

**Nos Iau, Chwefror 20:** Noson i'r ifanc yn Y Sefydliad Coffa yn Llanrug am 8.00 o'r gloch.

**Nos Wener, Chwefror 21:** Capel Got Talent yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch.

**Dydd Sul, Chwefror 23:** Oedfa Deulu am 10.30 o'r gloch, a'r Gweinidog am 5.00 o'r gloch.

### REHOBOTH

**Dydd Sul, Chwefror 23:** Ni fydd oedfa ond croeso i'r oedfaon yn Capel Coch.

### Y mis nesaf - Deiniolen

**Chwefror 16**

**OEDFAON WEDI EU GOHIROO  
OHERWYDD DIFROD I DO'R  
FESTRI**

**Chwefror 23**

10.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Y Parchg Dafydd Ll Hughes

**Mawrth 2**

9.30 a.m. - Y Gweinidog  
10.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Y Gweinidog

**Mawrth 9**

10.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Mr John Roberts

### Y mis nesaf - Llanberis

**Chwefror 16**

10.00 a.m. - Dr Huw Tegid Roberts  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Oedfa

**Chwefror 23**

10.30 a.m. - Oedfa Deulu  
5.00 p.m. - Y Gweinidog


**Mawrth 2**

10.00 a.m. a 5.00 p.m.  
Y Parchg Richard O Jones

Dim Ysgol Sul (Gwyliau Hanner Tymor)

**Mawrth 9**

10.00 a.m. - Y Gweinidog  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Oedfa MOLI



# Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Deiniolen, Llanberis a Nant Peris  
Rhif 579- Dydd Sul, 16 Chwefror, 2014

## Sochi'n malio?

Welais i fawr ddim o gystadlu wythnos gyntaf Gemau Olympaidd y Gaeaf o Sochi. A fwy na thebyg na welaf fawr mwy yr wythnos nesaf chwaith. 'Dwyf fi ddim yn siwr iawn pam. Fel arfer, 'dwi'n eithaf mwynhau sawl un o'r campau traddodiadol, fel y sgïo lawr mynydd a'r slalom, y naid sgïo a'r hoci ia, y sglefrio a'r dawnsio, y cwrlu a'r bobsledio. (Mae'r holl neidio trosben ar fyrddau eira'n ymddangos yn fwy o driciau na chwaraeon Olympaidd i mi; ond mae'n siwr mai arwydd yw hynny mai fi'n sy'n hen ffasiwn!)

Ond dal i feddwl ydw i pam nad yw'r gemau hyn wedi dal fy sylw. O bosib bod a wnelo'r holl sôn a fu ymlaen llaw am ddiffyg hawliau dynol yn Rwsia rywbeth i'w wneud â'r peth. O bosib bod cymaint o chwaraeon ar y teledu erbyn hyn fel nad yw hyd yn oed y Gemau Olympaidd mor arbennig ag oedden nhw ers talwm. O bosib mai'r stormydd a gawsom ni yn ystod yr wythnos a wnaeth i mi anghofio am y Gemau. O bosib mai diffyg amser, neu ddifaterwch neu ddiffyg diddordeb gwirioneddol yn y cyfan a fu'n gyfrifol.

A beth wedyn sy'n fy rhwystro rhag gwneud llawer o'r hyn y dylwn ei wneud fel Cristion? Cywilydd fyddai gorfod cyfaddef bod a wnelo difaterwch â'r peth. Pam nad wyf yn gweddio mwy? Pam nad wyf yn myfyrio mwy nag a wnaaf yn Y Beibl? Pam nad wyf yn mynd i'r oedfa mor aml ag oeddwn? Pam nad wyf yn cyfrannu mwy nag a wnaaf at waith yr eglwys? Pam nad yw

lluniau'r dioddefaint a welaf yn gwneud i mi frwydro dros gyfiawnder a rhoi o'r hyn sydd gennyf i leddfu poen eraill? Pam nad wyf yn cyffroi pan glywaf ffrindiau'n cablu enw Iesu Grist? Pam nad wyf ar dân dros Grist y Gwaredwr?

Dau o elynion sicr y bywyd Cristnogol yw difaterwch, a diffyg diddordeb yng ngwaith yr Arglwydd. Pa obaith sydd am unrhyw fendith yn y gwaith os yw'r ddau beth hyn yn teyrnasu? Ond o ble daw'r ddau beth, neu beth sy'n gyfrifol amdanynt?

Ffrwyth y galon sydd wedi oeri yw'r difaterwch difaol sy'n medru bod mor amlwg ym mywyd Cristnogion. Sut allwn fod yn ddifater ynghylch Efengyl Iesu Grist a'r hyn y mae'r Gwaredwr yn ei ddisgwyl gennym? Mwyaf tebyg am fod ein calon wedi oeri at Dduw, ac nad yw ein cariad at Iesu Grist yr hyn a fu nac y dylai fod os ydym yn credu ynddo ac yn ei arddel yn Arglwydd a Gwaredwr. A mwy difrifol fyth yw'r posibilrwydd bod y diffyg diddordeb yng ngwaith Duw yn ffrwyth y galon sydd heb greu yn yr Arglwydd o gwbl a heb ei goleuo gan oleuni'r Efengyl. Heb olwg ar fawredd Crist nac unrhyw ddealltwriaeth o gariad Duw, does ryfedd nad oes gan bobl ddiddordeb yn addoliad a gwaith yr eglwys.

Ond gall Duw drechu ein difaterwch a rhoi i ni ddiddordeb ysol yng ngwaith ei Deyrnas. Gweddiwn y bydd yn gwneud hynny er mwyn ei ogoniant.

Gofalaeth Unedig  
Deiniolen, Llanberis a Nant Peris

Cefnywaun (P), Deiniolen  
Ebeneser (A), Deiniolen  
Capel Coch (P), Llanberis  
Nant Padarn A), Llanberis  
Rehoboth (P), Nant Peris

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard  
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd  
Ffôn: 01286 872390  
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:  
gronyn.wordpress.com  
neu gronyn.org

## Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon y Sul unwaith eto. Gweddiwn am fendith Duw ar ein haddoliad o'r newydd.

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan Dr Huw Tegid Roberts, Llangefni. Croeso cynnes iddo unwaith eto, a diolch iddo am ei wasanaeth. Bydd yr Ysgol Sul am 11,15 o'r gloch. Bydd yr oedfa am 5.00 o'r gloch yng ngofal rhai o'r aelodau.

Bu raid gohirio'r oedfaon yn Neiniolen heddiw am fod difrod wedi ei wneud i do'r festri. Mae 2 neu 3 teilsen wedi eu chwythu oddi ar frig y to, ac ni fydd modd eu trwsio tan yr wythnos nesaf yma. Felly, rhag peryglu pobl wrth fynd a dod, penderfynwyd mai doethach fyddai gohirio'r oedfaon a'r Ysgol Siul heddiw.

Ni fydd oedfa yn Rehoboth heddiw.

## Cofion

## Pwyllgor Blaenoriaid

Cynhelir Pwyllgor Blaenoriaid Capel Coch yn y festri am 7.00 o'r gloch nos yfory, nos Lun, Chwefror 17.

## Noson Ynys Manaw

Bydd cyfle i aelodau CIC Llanberis a CIC Llanrug ddod at ei gilydd mewn cyfarfod arbennig yng nghwmni criw o Gristnogion ifanc o Ynys Manaw yn Y Sefydliad Coffa yn Llanrug nos Iau yr wythnos hon, Chwefror 20. Mae'r criw o Ynys Manaw wedi dod i Ogledd Gymru i gynnal nifer o gyfarfodydd. Maent wedi bod yn dod draw ers blwyddyn neu ddwy dan nawdd mudiad Trobwynt, sy'n cefnogi'r eglwysi yn Llyn ac Eifionydd yn eu cenhadaeth i blant ac ieuencid. Bydd cyfle i chwarae snwcer a thennis bwrdd ac i ddysgu rhywfaint am Ynys Manaw. Bydd y cyfarfod yn dechrau am 8.00 o'r gloch ac yn gorffen am 9.15 o'r gloch.

## Cymdeithas Undebol

Cynhaliwyd Cymdeithas Undebol Llanberis nos Fawrth ddiwethaf a chafwyd sgwrs gan Mr John H Hughes, Llanberis am ddifflaniad David Ellis, 'Y Bardda Gollwyd' yn Salonica yn ystod y Rhyfel Mawr. Diolch iddo am ofalu am y noson.

## Cyfarfod Gweddi Efe

Bu raid gohirio Cyfarfod Gweddi Efe nos Fercher diwethaf oherwydd y tywydd mawr. Roeddem wedi bwriadu dal ati ond fe dorrodd y cyflenwad trydan ryw awr cyn y cyfarfod, ac roedd yn fwy diogel i bawb aros gartref.

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Ms Bethan Jones, 1 Maes Padarn a Mr Cledwyn Jones, 40 Afon Terrace, Llanberis o glywed am farwolaeth Mrs Katie Griffith (23 Maes Padarn gynt) yng Nghartref Maesincla. Anfonwn ein cofion hefyd at ei merch a'i mab, Eryl ac Eurwyn a'r teulu cyfan yn eu colled.

## Casgliad Genhadaeth

Yn ystod mis Mawrth gwneir y casgliad blynyddol yn Capel Coch at Gronfa Genhadol Chwiorydd, Eglwys Bresbyteriaid Cymru. Byddwn yn ddiolchgar am bob rhopdd at y casgliad hwn fel arfer, a gellir rhoi eich cyfraniad i Miss Dilys Mai Roberts neu i'r casglyddion a fydd yn dod o amgylch fel arfer.

## Cwrs Ieuencid

Cynhelir Cwrs Ieuencid yng Ngholeg y Bala o nos Wener, Chwefror 28 hyd ddydd Sul, Mawrth 2. Mae'r manylion llawn gan Andrew Settatree. Mae rhai o'r ieuencid yn bwriadu mynd i'r cwrs hwn.

## Dydd Gweddi

### Byd-eang y Chwiorydd

Bydd aelodau'r eglwysi yn Neiniolen yn cynnal eu Gwasanaeth Dydd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd yn Ebeneser, am 6.00 o'r goch nos Wener, Mawrth 7. Croeso cynnes i bawb.

## Cronfa Gronyn

Diolch yn fawr iawn am bob rhodd a dderbyniwn i Gronfa Gronyn. Mae pob rhodd yn help i dalu am ei argraffu bob Sul. Derbyniwyd sawl rhodd ers dechrau'r flwyddyn, sy'n f'atgoffa mai tua'r adeg yma o'r flwyddyn y byddwn yn arfer tynnu sylw at y gronfa. Rydym yn falch o dderbyn rhoddion at y gronfa unrhyw adeg o'r flwyddyn wrth gwrs,

## 'Capel Got Talent'

yn festri Capel Coch

am 7.00 o'r gloch

nos Wener, Chwefror 21

Beirniad:  
Arwel Jones, Penisarwaun  
(Arwel Hogia'r Wyddfa)

Mae llwyddiant y noson yn dibynnu ar gael digon o gystadleuwyr. Felly, cof-iwch nad yw'n rhyw hwyr i chi roi eich enw i gymryd rhan. Gallwch hyd yn oed gymryd rhan os na fyddwch wedi dweud wrthym ymlaen llaw.

Mae croeso i oedolion yn ogystal â'r plant a'r ieuencid gymryd rhan eleni eto. Canu, adrodd, dweud jôcs, actio, dawnsio, chwarae offeryn cerdd, dweud stori, gwaith celf, jyglo, hyfforddi ci, coginio, consurio - dyma'ch cyfle i gystadlu am dlws 'Capel Got Talent 2014'.

Ieuencid y dosbarth Ysgol Sul fydd yn trefnu eleni eto, a bydd yr elw yn mynd at waith CIC, i helpu i dalu costau bws i wahanol weithgareddau.

Tâl mynediad:  
Oedolion:  
Plant:

ond mae yna gyfle arbennig i gyfrannu ar ddechrau'r flwyddyn fel hyn.

## CIC

Cynhaliwyd CIC yn Capel Coch echnos ac roedd yn braf gweld yr hogiau wedi mentro yno trwy'r glaw i gyd. Cawsom rywffaint o hanes yr anturiaethwr Bear Grills a'i ffydd Gristnogol gan Andrew.